

Creu Gweirglodd blodau gwylt



Casgliad o flodau a gweiriau brodorol a lluosflwydd yw “**gweirglodd blodau gwylt**” (llun 1).

Mae “caeau yd” (llun 2) yn gymysgeddau o blanhigion caeau yd unflwydd, ac yn wahanol i weirgloddiau blodau gwylt brodorol.

Dwy ffordd o greu gweirglodd:

• Trawsnewid lawnt sy'n bodoli eisoes

Yn syml, gadewch i laswellt sy'n bodoli eisoes dyfu'n uchel a sylwch ar ba flodau sydd yno. Tynnwch y dywarchen mewn manau ac ychwanegwch blanhigion plwg mewn grwpiau o 5-10/m². Gofalwch chwynnu a dyfrio'r planhigion nes byddant wedi ymsefydlu. Mae'r gribell felen yn barasit sy'n byw ar laswellt ac mae'n flodyn defnyddiol i'w gael yn eich gweirglodd. Gellir ei hau'n llwyddiannus ar glytiau o bridd moel ymhlith y gweiriau yn yr hydref.

• Creu gweirglodd o ddim

CAM 1: Paratoi'r safle

Cyfuniadau o flodau gwylt lluosflwydd yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer pridd gwael, isbridd ysgafn, graean, gro a phridd calchog.

Tynnwch y dywarchen a'r uwchbridd ffrwythlon, dyfnder 5-10cm.

loddwch i dynnu gwreiddiau chwyn lluosflwydd megis dant y llew, ysgall, danadl, cwllwm y cythraul a thafol yn ofalus. Mae'n bwysig mynd i'r afael â'r broblem chwyn cyn hau.

Gadewch i'r chwyn gael amser i ymddangos ar y clwt newydd o dir ydych chi wedi ei baratoi, cyn mynd ati i hau'r hadau. Efallai y bydd rhaid ichi dreulio tymor yn clirio'r holl chwyn yn gyfan gwbl cyn hau.

Cribiniwch dros y pridd i greu gwely hadau. Gofalwch ei fod yn gadarn, drwy gerdded arno neu ei rowlio.

CAM 2: Hau

- Cymysgwch hadau gyda thywod golau a'u hau drwy gerdded yn ôl ac ymlaen, yn gwasgaru'r hadau wrth gerdded.
- Cerddwch drostynt eto i sicrhau fod cysylltiad da rhwng yr hadau a'r pridd.
- Peidiwch â'u gorchuddio â phridd. Mae'r rhan fwyaf o hadau blodau gwylt yn egino'n well mewn golau.

Nid oes angen ychwanegu gweiriau at gymysgedd blodau gwylt. Bydd y rhain yn dod yn naturiol beth bynnag a bydd y blodau yn cael cychwyniad manteisiol heb orfod cystadlu â gweiriau yn y blynyddoedd cyntaf.

Os ydych eisiau hau cymysgedd o weiriau/blodau, dylech osgoi cynnwys gweiriau egniol fel rhygwellt. Mae gweiriau mwy mân fel maeswellt a pheiswellt yn fwy addas. Ceisiwch gael gafael ar hadau gweirglodd sydd mor lleol ag sydd bosib. Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Naur neu'r cofnodwr BSBI lleol i gael mwy o wybodaeth am ba hadau lleol sydd ar gael.

PEIDIWCH Â:

Peidiwch â hau hadau ar ddarn o laswellt neu chwyn.

Peidiwch â hau hadau blodau gwylt mewn cysgod tywyll er enghraifft dan gonwydd.

Peidiwch â gorchuddio'r hadau.



Llun 1



Llun 2



Gribell felen

Amseru

Gellir hau gweirgloddiau yn y gwanwyn (Mawrth-Ebrill) neu yn yr hydref (Medi-Tachwedd). Gall hau rhai hadau yn yr hydref fod yn fanteisiol i rai rhywogaethau sy'n egino'n well ar ôl tywydd rhewllyd (cribell felen, briallu Mair, briallu). Fodd bynnag, bydd y rhain yn ymddangos mewn blynyddoedd i ddod os cânt eu hau yn y gwanwyn. Rhaid i ardal lle heuwyd yn yr hydref gael ei gwarchod rhag pobl a chŵn ac efallai y bydd yn anodd gwneud hyn mewn mannau cyhoeddu.

Dewis o gymysgedd hadau

Rhowch ystyriaeth i'r math o bridd sydd dan sylw (tywodlyd/trwm, asid/niwtral/calchog) ac i leoliad y weirglodd (cysgodol/heulog).

Mathau o flodau

Ar gyfer Gweirgloddiau Blodau Gwyllt Lluosflwydd:

Y bengaled, clafrllys y maes, blodyn ymenyn, briwydd felen, troed yr aderyn, tribys, llyriad yr ais, pig-yr-aran y weirglodd, cribell felen, ffacbys, milddail, y feddyges las, hocysen fwsg, llygad llo mawr, cribau San Ffraid, blodyn neidr, eurinllys, moronen arfor, briallen Mair, briallen.

! Peidiwch â disgwyl gweld blodau yn y flwyddyn gyntaf – mae angen i'r rhan fwyaf o blanhigion lluosflwydd dyfu am 2 flynedd o leiaf cyn iddynt fod yn ddigon aeddfed i flodeuo.

Ar gyfer Ardaloedd Caeau Yd Unflwydd:

Bulwg yr yd, Glas yr yd, Melyn yr yd, Camri'r yd, Pabi'r yd.

Rheolaeth

Yn ystod gwaith cynnal a chadw'r flwyddyn 1af, dyfrwch yn ofalus yn y cyfnod cynnar. Cadwch olwg ar bethau, tynnwch chwyn a gweiriau garw.

Gweirgloddiau lluosflwydd

Yn achos gweirgloddiau sy'n blodeuo yn y gwanwyn gyda briallen Mair, blodyn llefrith, y fritheg, ac ati:

- Gadewch iddynt dyfu a blodeuo o fis Mawrth hyd at ddiwedd Mehefin/Gorffennaf.
- Torrwch ym mis Gorffennaf a chofiwch dynnu'r gwair bob amser.
- Torrwch yn ysbeidiol hyd at fis Hydref neu wneud un toriad terfynol ym mis Hydref

Yn achos gweirgloddiau sy'n blodeuo yn yr haf gyda'r bengaled, clafrllys y maes, blodyn ymenyn, ac ati:

Torrwch yn ysbeidiol yn y gwanwyn hyd at ddiwedd mis Ebrill ac yna gadewch i flodeuo a chynhyrchu hadau.

- Torrwch ddiwedd mis Awst/Medi a thynnwch y gwair.
- Torrwch yn derfynol ym mis Hydref, ddim rhy fyr. Gadewch sofr 6".

Ardaloedd caeau yd unflwydd

- Gadewch tan fis Medi.
- Tynnwch unrhyw chwyn lluosflwydd fel danadl, ysgall, dail tafol.
- Tynnwch yr holl goesynnau blodau sydd wedi gwywo. Cribiniwch y pridd, gwnewch wely hadau.
- Gwasgarwch yr hadau ar y pridd moel.
- Peidiwch â'u gorchuddio â phridd; cerddwch dros y pridd i wthio'r hadau i mewn.



Gweirglodd wedi'i hau o ddim



Glas yr yd a chacynen dingoch



Pys ceirw



Milddail



Blodyn llefrith

Pori

Ystyriwch bori gyda defaid, geifr, merlod neu wartheg os oes gennych weirglodd eang. Gallant helpu i greu uchderau amrywiol o lystyfiant, sy'n well ar gyfer bywyd gwyllt. Ar ôl torri, porwch yn ysgafn o fis Medi hyd at fis Tachwedd, yna trefnwch fod y weirglodd yn cael ei phori'n ysgafn ym mis Mawrth hyd at ddiwedd mis Ebrill. O ddiwedd mis Ebrill hyd at fis Awst dylech adael y weirglodd heb ei phori. Mae tail gwartheg yn dda i chwilog ac infertebrâu eraill.



www.northwaleswildlifetrust.org.uk

01248 351541



Charity number / rhif elusen : 230772
Company number / rhif Cwmni : 773995